Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Nehemeia 3-6 (Cofiwch - mae'r cefndir i'r hanes yma ar gael hefyd)		
1	Roedd rhaid ail-adeiladu waliau Jerwsalem. Rhannwyd y gwaith rhwng y bobl.		
2	Dyma Eliashif yr archoffeiriad a'i gyd-offeiriaid yn mynd ati i adeiladu Giât y Defaid.		
3	Roedd yr offeiriaid a'r Leifiaid a phobl o'r pentrefi cyfagos yn gweithio i ailgodi'r waliau.		

4	Pan glywodd Sanbalat bod y waliau'n cael eu codi dyma fe'n gwylltio'n lân a dechrau galw'r Iddewon yn bob enw dan haul. Dyma fe'n dechrau dweud o flaen ei ffrindiau a milwyr Samaria, “Beth mae'r Iddewon pathetig yma'n meddwl maen nhw'n wneud? Ydyn nhw'n meddwl y gallan nhw wneud y gwaith eu hunain? Fyddan nhw'n offrymu aberthau eto? Ydych chi'n meddwl y gwnân nhw orffen y gwaith heddiw? Ydyn nhw'n meddwl y gallan nhw ddod â'r cerrig yma sydd wedi llosgi yn ôl yn fyw?”	
5	A dyma Tobeia o Ammon, oedd yn sefyll gydag e, yn dweud, “Byddai'r wal maen nhw'n ei chodi yn chwalu petai llwynog yn dringo arni!”	
6	Gweddïodd y bobl, "O ein Duw, gwrando arnyn nhw'n ein bychanu ni! Tro eu dirmyg arnyn nhw eu hunain! Gwna iddyn nhw gael eu cipio i ffwrdd fel caethion i wlad estron!" Dyma nhw'n dal ati i ailadeiladu'r wal. Roedd hi'n gyfan hyd at hanner ei huchder ac roedd y bobl yn frwd i weithio.	
7	Pan glywodd Sanbalat a Tobeia, yr Arabiaid, pobl Ammon a phobl Ashdod fod y gwaith o adfer waliau Jerwsalem yn dod yn ei flaen yn dda, a bod y bylchau yn y wal yn cael eu cau, roedden nhw'n wyllt. A dyma nhw'n cynllwynio gyda'i gilydd i ymosod ar Jerwsalem a chreu helynt.	

8	Felly dyma'r Iddewon yn gweddïo ar Dduw, a gosod gwylwyr i edrych allan am y gelyn ddydd a nos.	
9	Roedd Nehemeia'n wynebu nifer o broblemau eraill hefyd. Roedd pobl Jwda'n dweud, “Mae'r gweithwyr yn blino a stryffaglu, ac mae cymaint o rwbel. Does dim gobaith i ni adeiladu a gorffen y gwaith ar y wal yma!” Roedd yr Iddewon oedd yn byw'n agos i'r gelyn yn rhybuddio'r bobl lawer gwaith am y cynllwynion yn eu herbyn.	
10	Penderfynodd Nehemeia osod pobl i amddiffyn y rhannau isaf, tu ôl i'r wal yn y mannau mwyaf agored. Gosododd ddynion gyda cleddyfau, gwaywffyn a bwâu. Yna ar ôl edrych dros y cwbl, dyma fo'n codi i annerch yr arweinwyr, y swyddogion, a gweddill y bobl, a dweud, “Peidiwch bod â'u hofn nhw. Cofiwch mor fawr a rhyfeddol ydy'r Arglwydd! Byddwch barod i ymladd dros eich pobl, eich meibion, eich merched, eich gwragedd a'ch cartrefi!”	

11	O'r diwrnod hwnnw ymlaen roedd hanner y dynion ifanc yn adeiladu a'r hanner arall yn amddiffyn. Roedd ganddyn nhw arfwisg, ac roedden nhw'n cario gwaywffyn, tarianau a bwâu. Roedd y swyddogion yn sefyll tu ôl i bobl Jwda oedd yn adeiladu'r wal. Roedd y rhai oedd yn cario beichiau yn gwneud hynny gydag un llaw, ac yn dal arf yn y llaw arall.	
12	Atgoffodd Nehemeia y bobl, "Bydd ein Duw yn ymladd droson ni!” Felly dyma nhw'n bwrw ymlaen gyda'r gwaith o fore gwyn tan nos.	
13	Yn sydyn cododd problem arall. Dyma rai o'r bobl yn dechrau cwyno a protestio am eu cyd-ldewon. “Mae gynnon ni deuluoedd mawr, ac mae angen lot o ŷd arnon ni i allu bwyta a byw.” Roedd eraill yn dweud, “Dŷn ni'n gorfod morgeisio ein tir a'n gwinllannoedd a'n tai er mwyn prynu ŷd i osgoi llwgu.” Ac eraill eto, “Dŷn ni wedi gorfod benthyg arian i dalu trethi i'r brenin ar ein tir a'n gwinllannoedd. Dŷn ni wedi gorfod rhoi'n meibion a'n merched i weithio fel caethweision i bobl er ein bod ni a'n plant o'r un genedl ac yn rhannu'r un gwaed â nhw.”	

14	Roedd Nehemeia'n wyllt pan glywodd am hyn i gyd. Yna ar ôl ystyried y sefyllfa'n ofalus, dyma fo'n penderfynu mynd at y bobl gyfoethog a'r swyddogion i gwyno: “Dych chi i gyd yn codi llogau ar ddyledion eich pobl eich hunain! Rhaid stopio'r busnes yma o gymryd tir a thai pobl i dalu dyledion!" A dyma nhw'n ateb, “Gwnawn ni roi'r cwbl yn ôl, a stopio hawlio dim oddi arnyn nhw. Byddwn ni'n gwneud yn union fel rwyt ti'n dweud.”	
15	Galwodd Nehemeia am offeiriaid a gwneud i'r bobl gyfoethog a'r swyddogion fynd ar eu llw y bydden nhw'n cadw eu gair. A dyma pawb yn y gynulleidfa yn ateb, “Ia, wir! Amen!” ac addoli'r ARGLWYDD.	
16	Clywodd Sanbalat, Tobeia, Geshem yr Arab, a'r gelynion eraill bod yr Iddewon wedi ailadeiladu'r wal a chau'r bylchau i gyd (dim ond drysau'r giatiau oedd ddim wedi'u gosod yn eu lle bryd hynny). Dyma nhw'n anfon neges at Nehemeia yn gofyn iddo eu cyfarfod yn un o'r pentrefi ar wastatir Ono.	
17	Ond bwriadu gwneud drwg i Nehemeia oeddwn nhw. Felly anfonodd Nehemeia neges yn ôl yn dweud, “Dw i'n gwneud gwaith pwysig, ac felly alla i ddim dod. Alla i ddim gadael i'r gwaith stopio er mwyn dod i'ch cyfarfod chi.”	

18	Dyma nhw'n cysylltu i ofyn yr un peth bedair gwaith, a rhoddodd Nehemeia'r un ateb iddyn nhw bob tro. Yna'r pumed tro dyma Sanbalat yn anfon ei was gyda llythyr agored yn ei law. Dyma oedd y llythyr yn ei ddweud: “Mae yna si yn mynd o gwmpas dy fod ti a'r Iddewon yn bwriadu gwrthryfela, ac mai dyna pam dych chi'n adeiladu'r waliau. A'r sôn ydy dy fod ti am fod yn frenin arnyn nhw." Celwydd oedd hyn.	
19	Yna aeth Nehemeia i weld Shemaia, dyn oedd ddim yn gallu gadael ei dŷ. A dyma fe'n dweud, “Gad i ni gyfarfod yn y cysegr – cysegr Duw yn y Deml, a chloi ein hunain i mewn. Maen nhw'n dod i dy ladd di; dod i dy ladd di yn y nos.” Tobeia a Sanbalat oedd wedi'i dalu i ddychryn Nehemeia.	
20	Ond dyma Nehemeia'n ateb, “Ydy'n iawn i ddyn fel fi redeg i ffwrdd? A sut all dyn cyffredin fel fi fynd i mewn i'r cysegr a chael byw? Na, wna i ddim mynd.”	
21	Cafodd y wal ei gorffen pum deg dau diwrnod ar ôl iddyn nhw gychwyn ar y gwaith.	

22	Roedd eu gelynion, a'r gwledydd o'u cwmpas, wedi dychryn a digalonni pan glywon nhw fod y gwaith wedi'i orffen. Allen nhw ddim gwadu fod Duw wedi helpu'r Iddewon i wneud hyn.	
23	Cyfieithiad beibl.net	